**Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Ystafell Raven yng Ngwesty'r White Hart ar Nos Fercher yr 28ain o Fai 2010 am 6.45yh.**

**Presennol:** Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Y Dirprwy Faer y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Ieuan Gwyn, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Hugh Towns, y Cyng. Richard Wallace.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

**Ymddiheuriadau :** Y Cyng. Roy Davies

**Cof 56 / Mai /10 Anerchiad y Faeres**
Fe wnaeth y Faeres, y Cyng. Charlotte Leadbeater annerch y cyfarfod. Diolchodd i bob un o'r Cynghorwyr am eu cymorth a'u cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn. Dywedodd y Cyng. Leadbeater y bu llawer o uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys rhoi Gwobr Banner Werdd i Barc Penlan, ymweliad y Tywysog Charles i Landeilo, dechrau'r rhandiroedd ym Mharc Dinefwr, o ganlyniad i gydweithrediad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mudiad Transition Town a Chymdeithas y Dalar. Diolchodd y Faeres i'r Elusennau a'r mudiadau Gwirfoddol yn y Dref am eu holl waith caled.

**Cof 57 / Mai / 10 I Dderbyn Enwebiadau ar gyfer Maer 2010-11**
Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace y Cyng. Christopher Parish fel Maer. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Christopher Parish yr Enwebiad. Fe wnaeth ei Ddatganiad Derbyn Swydd. Cyflwynodd y Cyng. Christopher Parish Fedal y Cyn Faeres i'r Cyng. Charlotte Leadbeater.

**Cof 58 / Mai /10 Anerchiad y Maer newydd**
Diolchodd y Cyng. Christopher Parish i'w gyd Gynghorwyr am ei enwebu ef i fod yn Faer. Roedd yn ei hystyried hi'n anrhydedd i gynrychioli Tref Llandeilo. Diolchodd i'r Faeres ymadawol am ei holl waith caled a'i hymroddiad yn ystod ei Blwyddyn yn y Swydd.

**Cof 59 / Mai / 10 I Dderbyn Enwebiadau ar gyfer Dirprwy Faer 2010-11**
Galwodd y Maer newydd, y Cyng. Christopher Parish am Enwebiadau ar gyfer y Dirprwy Faer.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy y Cyng. Julia Jones fel Dirprwy Faer. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng. Julia Jones yr Enwebiad. Fe wnaeth ei Datganiad Derbyn Swydd. Fe wnaeth y Maer ei harwisgo gyda'i Bathodyn Swydd.

**Cof 60 / Mai / 10 Cyflwyniad**

Cyflwynodd y Cyng. Julia Jones dusw o flodau i'r Faeres ymadawol, y Cyng. Charlotte Leadbeater.

**Cof 61 / Mai /10 Gohirio'r Cyfarfod**

Cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn bod y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei ohirio a'i ailddechrau am 7yh ar yr 2il o Fehefin 2010 yn Neuadd y Sir. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15yh.